Enw'r mudiad	Disgrifiad 50 gair	Cais grant	Lleoliad yng Nghymru	Thema
Cae Rhug	Bydd prosiect 'The Forage, Nest and Rest' yn creu llwybr newydd 1km o hyd o gynefinoedd cefnogi bywyd gwyllt a mannau i bobl gysylltu â natur a chyda'i gilydd. Bydd yn darparu planhigion bwyd ar gyfer bywyd gwyllt, yn enwedig adar, ond hefyd i bobl, ac yn cynyddu'r safleoedd nythu a gorffwys i fywyd gwyllt a phobl ar hyd y llwybr hwn.	£49,641.52	Sir y Fflint	Bioamrywiaeth
Gofal a Thrwsio Gogledd-ddwyrain Cymru	Byddwn yn gwella ac yn gwarchod bioamrywiaeth Parc Dyfrdwy, sef man gwyrdd cymunedol 27 erw, drwy wella cynefinoedd bywyd gwyllt, cynnwys llwybr natur a, thrwy recriwtio swyddog prosiect i recriwtio ac uwchsgilio gwirfoddolwyr, cynnal sesiynau addysgol gydag ysgolion, gan gynnig rôl hirdymor i bobl leol redeg eu parc lleol.	£49,500.00	Sir y Fflint	Bioamrywiaeth

Her Cymru	Bydd Her Cymru yn datblygu menter addysgol drawsnewidiol ar gyfer 290 o bobl ifanc yn y gymuned, gan amlygu effaith niweidiol plastig untro ar yr amgylchedd morol. Bydd yn cynnwys cael gwared ag ychydig o'r gwastraff sbwriel microblastig ar hyd Bae Caerdydd er mwyn gwella'r ardal leol.	£7,537.86	Bro Morgannwg	Bioamrywiaeth
Cwmni Buddiannau Cymunedol Cymbrogi	Grymuso ein cymuned i lunio byd cynaliadwy yfory. Rhaglen o weithdai a gweithgareddau a fydd yn cefnogi pobl o wahanol genedlaethau a chefndiroedd i ddeall bod dynolryw yn dibynnu ar fod yn garedig i fyd natur os ydym yn mynd i gael planed ffyniannus y gellir byw arni.	£19,837.80	Sir Benfro	Lleihau gwastraff
Canolfan yr Amgylchedd	Gofod Trwsio yn Abertawe, lle caiff gwirfoddolwyr eu cefnogi i drwsio eitemau sydd eu hangen yn rheolaidd. Mae ar agor i'r cyhoedd i gael pethau wedi'u trwsio am ddim dau ddiwrnod yr	£43,362.50	Abertawe	Lleihau gwastraff

	wythnos. Bydd ymgyrch codi ymwybyddiaeth, digwyddiad blynyddol, gweithdai seiliedig ar sgiliau a mynediad gwell drwy drefnu casgliadau beiciau e-gargo ac adegau gollwng/casglu y tu allan i oriau gyda chydweithredwyr lleol yn ategu'r ddarpariaeth graidd hon.			
Comin Gelligaer a Merthyr Cyf	Nod y prosiect yw canolbwyntio ar dri lle ar Gomin Gelligaer a Merthyr sy'n cael tanau gwyllt yn aml. Trwy weithio mewn partneriaeth a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn dangos y lefel o reolaeth tir sydd ei hangen i reoli'r risg, gwarchod yr amgylchedd a diogelu cymunedau, gan sicrhau bod y comin yn parhau i fod yn dirwedd weithiol.	£49,999.00	Abertawe	Bioamrywiaeth
Gilfach Goch	Bydd Ein Hamgylchedd, Ein Cymuned yn gweithio gyda'r gymuned i	£49,991.96	Rhondda Cynon Taf	Lleihau gwastraff

	ddatblygu ardaloedd lle gall bywyd gwyllt a thyfu bwyd fyw ochr yn ochr â'i gilydd. Bydd hyn yn galluogi bwyd i gael ei dyfu i'w ddosbarthu o gwmpas y dyffryn a meysydd blodau gwyllt a hybiau bioamrywiaeth i gael eu sefydlu er budd y gofod llawer ehangach.			
Groundwork Caerffili	Mae'r dirywiad mewn merlod mynydd Cymreig yn golygu bod mwy o brysgwydd yn tyfu ar ochrau'r mynyddoedd, sy'n golygu bod mwy o berygl o dân a llai o dir pori. Mae'r merlod hyn yn rheoli'r prysgwydd drwy bori, ond gallant hefyd ddarparu ynni ar gyfer technolegau cynaliadwy fel peiriannau sathru rhedyn. Bydd y prosiect yn dangos pŵer merlod ar gyfer technolegau rheoli tir effaith isel.	£30,031.00	Caerffili	Bioamrywiaeth
Ymddiriedolaeth Natur Gwent	Bydd y prosiect yn adfer a gwella coetir a chynefinoedd mawndir pwysig yng Ngwarchodfa Natur Cors Henllys	£29,433.00	Sir Fynwy	Bioamrywiaeth

	Ymddiriedolaeth Natur Gwent er mwyn gwarchod rhywogaethau prin ac agored i niwed; gweithio gyda gwirfoddolwyr a chymunedau lleol i'w cael nhw i gymryd camau ar gyfer natur nawr ac yn y dyfodol.			
Little Lounge	Mannau gwyrdd cymunedol arloesol yw'r 'Little Eco Gardens' yng nghanol hen bentref glofaol Cilfynydd. Creu mynediad at ddysgu am dyfu bwyd, bioamrywiaeth a chynaliadwyedd. Mae'r mannau awyr agored amlbwrpas hyn yn estyniadau o brosiectau 'Hyb Cymunedol yr Islawr' ac Anturiaethau Awyr Agored y Blynyddoedd Cynnar.	£49,956.50	Rhondda Cynon Taf	Gwelliant amgylcheddol ehangach
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol	Trwy'r prosiect dinesig gwyddonol hwn gan Seasearch Cymru, byddwn yn gweithio gyda gwirfoddolwyr i gynyddu'r data a gesglir o gynefinoedd morol hanfodol mewn pedwar rhan o Gymru; cysylltu	£49,337.35	Ynys Môn Castell-nedd Port Talbot Sir Benfro Abertawe	Bioamrywiaeth

	cymunedau â'r môr, wrth gefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch ecolegol.			
Mind Casnewydd	Caiff ein hadeilad ei ddefnyddio gan y bobl yng Nghasnewydd sydd angen help neu gefnogaeth gyda'u hiechyd meddwl. Bydd paneli solar yn ein helpu i arbed ynni a lleihau ein costau ynni, gan roi cynaliadwyedd ariannol i ni a fydd, yn ei dro, yn cynyddu ein gallu i fod yno i'r rheini mewn angen.	£49,999.00	Casnewydd	Gwelliant amgylcheddol ehangach
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru	Mae prosiect Rhwydwaith Ecolegol Gwydn Cymru yn rhoi fframwaith Cymru gyfan cydweithredol ar waith er mwyn hwyluso camau mwy effeithiol i fynd i'r afael ag effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol ar yr amgylchedd, yr economi ac ar bobl Cymru. Gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau i amddiffyn ac adeiladu ecosystemau gwydn iach a gwella bioamrywiaeth.	£178,010.09	Cymru gyfan	Bioamrywiaeth Gwelliant amgylcheddol ehangach

Yr Hwb Torfaen	Bydd eco-ailwampio'r WRCC yn lleihau ein heffaith amgylcheddol, yn annog camau ecogyfeillgar, ac yn galluogi ei gynaliadwyedd yn y dyfodol i 1000 o aelodau o'r gymuned sy'n defnyddio'r WRCC. Byddwn yn gosod paneli a goleuadau solar, rheiliau parcio beic, pwyntiau ailgylchu, yn cynnal 8 gweithgaredd hyrwyddo ac yn recriwtio 5 hyrwyddwr hinsawdd gwirfoddol newydd ar gyfer y mudiad.	£49,087.00	Torfaen	Gwelliant amgylcheddol ehangach
Y Fenter	Nod prosiect Iechyd Da yw dod â lles ac iechyd da i gymuned Parc y Fenter a Caia. Bydd yn creu lotment cymunedol, gweithdy gwirfoddolwyr gwyrdd, ysgol goedwig, ac yn cynyddu bioamrywiaeth a chynaliadwyedd. Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys ac yn cyflwyno budd i geiswyr lloches, ffoaduriaid, ysgolion lleol a gwirfoddolwyr.	£49,996.96	Wrecsam	Gwelliant amgylcheddol ehangach

Clwb Pêl-droed y Trallwng	Creu amgylchedd bywyd gwyllt hygyrch o gwmpas tri chae pêl-droed newydd er mwyn sicrhau bod yr ardal o fudd i nid yn unig mwy na 200 o bêl-droedwyr ifanc a'u teuluoedd, ond hefyd i'r rheini sy'n cerdded eu cŵn ac aelodau o'r gymuned leol sy'n dymuno mwynhau llonyddwch a bywyd gwyllt yr ardal brydferth hon.	£5,703.14	Powys	Gwelliant amgylcheddol ehangach